Ein Cymoedd Ein Dyfodol
Our Valleys Our Future

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ein Cymoedd, Ein Dyfodol:
# Cynnydd Diweddaraf Medi 2019



# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Uchafbwyntiau allweddol 2018–19 2

Ffrydiau gwaith y tasglu 3

Aelodaeth Tasglu'r Cymoedd 16

Atodiad: Prosiectau Allweddol yr Hybiau Strategol 17




OGL © Hawlfraint y Goron 2019


WG387974 ISBN digidol 978-1-83933-221-0

# Cyflwyniad

**Yn 2017, gwnaeth y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru waith ymgysylltu helaeth â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Dywedwyd wrth y tasglu am eu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.**

Arweiniodd hyn at *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*, cynllun lefel uchel y tasglu, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017. Seiliwyd y cynllun ar y tri maes blaenoriaeth canlynol:



**Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni**



**Gwell gwasanaethau cyhoeddus**



**Fy nghymuned leol**

Bellach yn ail flwyddyn ei gynllun cyflawni, mae'r tasglu yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r camau gweithredu yn y cynllun, gan gefnogi'r ymgyrch i wneud gwahaniaeth cadarnhaol, cynaliadwy i bob person sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd De Cymru.

*Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yw sbardun allweddol gwaith aelodau'r tasglu o hyd gan ei fod wedi deillio o'r hyn a ddywedwyd wrthynt oedd bwysicaf i gymunedau'r Cymoedd.

Bydd y tasglu ar waith tan 2021, felly, yn y cyfnod olaf hwn, mae'n bwysig manteisio i'r eithaf ar botensial yr arbenigedd a'r adnoddau a fydd ar gael yn ystod yr amser hwn. Er y bydd y tasglu yn parhau i weithio i gyflawni'r holl gamau gweithredu a geir yn y ddogfen *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni*, bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio'n benodol ar y saith maes canlynol.

- **Tai**
- **Yr Economi Sylfaenol**
- **Entrepreneuriaeth a chymorth busnes**
- **Trafnidiaeth**
- **Hybiau strategol**
- **Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd**
- **Parc Rhanbarthol y Cymoedd**

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi rhai o uchafbwyntiau allweddol 2018-19 yn ogystal â rhoi blas ar beth o'r gwaith a gaiff ei ddatblygu yn ystod y misoedd i ddod.

# Yn ystod 2018–19:

## Swyddi o ansawdd a'r sgiliau i'w gwneud

**£1.5 miliwn**
miliwn wedi'i roi i brosiectau'r Economi Sylfaenol yn y Cymoedd

**43** o entrepreneuriaid yn y Cymoedd wedi ymgeisio am fuddsoddiad o £75,000

**125** o weithdai cymorth busnes wedi'u cynnal ledled y Cymoedd

**1391** o bobl heb waith wedi cael cymorth cyflogadwyedd

**809**
o bobl wedi cael cymorth un i un neu gymorth drwy weithdy

## Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus

**Cynlluniau peilot trafnidiaeth gymunedol wedi'u datblygu**
yng Nghastell nedd a Blaenau Gwent

**Cynllun peilot bws y tu allan i oriau**
yng nghymunedau'r Cymoedd

**£10 miliwn**
wedi'i roi i fenter Cartrefi Gwag y Cymoedd

## Fy Nghymuned Leol

**£7 miliwn**
wedi'i fuddsoddi mewn 11 o Byrth Darganfod

Tîm pwrpasol ar gyfer
**Parc Rhanbarthol y Cymoedd**

**£8 miliwn**
wedi'i fuddsoddi mewn

**Llety ymwelwyr**
yn Rock UK, Neuadd Llechwen a BikePark Wales

**Hyrwyddo'r Cymoedd** fel cyrchfan o safon uchel i ymwelwyr

# Ffrydiau Gwaith y Tasglu

**Sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl etholiad y Cynlluniad Cenedlaethol a refferendwm yr UE. Dechreuodd Lee Waters, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, yn rôl y Cadeirydd yn 2018. Ers dechrau yn y rôl, mae'r Dirprwy Weinidog wedi cyfarfod ag Arweinwyr awdurdodau'r Cymoedd er mwyn chwilio am arfer gorau a allai gael ei gynyddu a'i gyflwyno ledled ardal Tasglu'r Cymoedd. Ymgynghorodd hefyd ag aelodau presennol y tasglu ac ACau o'r fainc gefn ac ACau Rhanbarthol er mwyn cael eu barn ar gyfeiriad a blaenoriaethau'r dyfodol. O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu hwn, mae ffocws y tasglu wedi cael ei adolygu er mwyn sicrhau y gall gael yr effaith fwyaf cynaliadwy dros y 18 mis nesaf.**

Er y bydd y tasglu yn parhau i weithio i gyflawni'r holl gamau gweithredu a geir yn y ddogfen *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni*, bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio'n benodol ar saith maes.

- **Tai**
- **Economi Sylfaenol**
- **Entrepreneuriaeth a chymorth busnes**
- **Trafnidiaeth**
- **Hybiau strategol**
- **Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd**
- **Parc Rhanbarthol y Cymoedd**

Mae'r adran ganlynol yn rhoi rhai manylion am bob un o'r ffrydiau gwaith.

# Tai

Yn ystod fy nghyfarfodydd ag Arweinwyr awdurdodau'r Cymoedd, gofynnais am enghreifftiau o arfer gorau a allai gael ei gynyddu a'i gyflwyno ledled ardaloedd Tasglu'r Cymoedd. Tynnodd Andrew Morgan, arweinydd Rhondda Cynon Taf (RhCT) ac aelod o Dasglu'r Cymoedd, sylw at gynllun cartrefi gwag llwyddiannus ei gyngor. .

Ers 2016, mae Cyngor RhCT wedi gweithredu ei *gynllun grantiau 'Cartrefi Gwag'*, sy'n cynnig cymorth i alluogi ymgeiswyr i ailddefnyddio eu tai gwag. Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cytuno i gefnogi Tasglu'r Cymoedd i gyflwyno'r fenter hon ym mhob awdurdod lleol yn ardaloedd y tasglu fel cynllun peilot yn ystod yr hydref. Mae £10 miliwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer eiddo gwag dros y ddwy flynedd nesaf, er y byddwn yn adolygu llwyddiant y fenter yn ystod y cyfnod hwn.

Mae hwn yn ddarn cyffrous iawn o waith, a fydd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â phryderon a godwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu cychwynnol â chymunedau'r Cymoedd. Bydd yn creu cartrefi fforddiadwy, mawr eu hangen ar gyfer preswylwyr y cymoedd ac yn cefnogi'r economi sylfaenol drwy gynnwys busnesau lleol mewn gwaith adnewyddu.

Bydd dau gam i'r broses o roi'r cynllun ar waith. Cam un fydd cyflwyno model presennol RhCT. Y flaenoriaeth wedyn fydd datblygu cam dau a fydd yn canolbwyntio'n fwy ar y manteision i bobl a busnesau yng nghymunedau'r Cymoedd, yn ogystal â chefnogi'r economi sylfaenol.


Rydym yn gwybod bod ymgeiswyr sy'n defnyddio model presennol RhCT yn dewis busnesau lleol i wneud y gwaith, ac mae'r tasglu am gefnogi ac annog hyn ymhellach. Ystyrir datgarboneiddio a manteision effeithlonrwydd ynni eraill i'w cynnwys yn y cynllun. Mae hefyd yn enghraifft o gydweithio gwirioneddol gan y bydd Tasglu'r Cymoedd yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor RhCT, a fydd yn cyflawni hyn ar ran y tasglu gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol eraill a phob rhan o Lywodraeth Cymru.



# Yr Economi Sylfaenol

Mae'r economi sylfaenol yn un o'r meysydd gweithredu allweddol. Mae'r rhannau hanfodol hyn o weithgarwch economaidd yn hollbwysig i lesiant, h.y. mae unrhyw effaith andwyol ar y cyflenwad yn tanseilio bywyd diogel a gwaraidd. Mynediad at aer a dŵr glân, y bwyd yr ydym yn ei fwyta, y cartrefi yr ydym yn byw ynddynt, yr ynni yr ydym yn ei ddefnyddio a'r gofal yr ydym yn ei gael yw'r gwasanaethau sylfaenol hynny y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt ac sy'n rhan bwysig o gyfansoddiad economi Cymru.

Mae hon yn rhan bwysig iawn o economi'r Cymoedd ac mae'r tasglu yn gweithio i sicrhau bod busnesau, cyflogwyr ac unigolion yn ymwybodol o'r mathau gwahanol o gymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt er mwyn hybu eu cynaliadwyedd ariannol nhw a chynaliadwyedd ariannol eu heconomi leol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gwella ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfaoedd, darparu sgiliau, arferion cyflogaeth a chyfleoedd am swyddi a gwaith teg.



**Mae'r tasglu yn cyfrannu**

**£1.5m**

**at Gronfa Her yr Economi Sylfaenol ar gyfer prosiectau yn y Cymoedd.**

I gychwyn, bydd yr Economi Sylfaenol yn canolbwyntio ar dri maes gweithredu:

- Defnyddio Cronfa Her yr Economi Sylfaenol i brofi dulliau newydd ac arloesol gan arwain at gymuned gadarn o arfer er mwyn helpu i godi proffil yr economi sylfaenol ac ysgogi trafodaeth a dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio.
- Lledaenu ac ehangu arfer gorau gan ddechrau drwy ailsefydlu Cymru ar flaen y gad o ran gwireddu gwerth cymdeithasol ym maes caffael gyda'r cymorth cysylltiedig ar gyfer cadwyni cyflenwi lleol cryf.
- Ffocws o'r newydd ar ymyriadau economaidd y Llywodraeth i gynyddu nifer y cwmnïau gwreiddiedig, yn enwedig sylfaen gref o gwmnïau canolig o Gymru.

## Entrepreneuriaeth a chymorth busnes

Mae'r tasglu yn gweithio i ddatblygu diwylliant entrepreneuriaeth ffyniannus yn y Cymoedd. Mae'r tasglu wedi gweithio'n agos gyda Busnes Cymru, Creu Sbarc, ICE Cymru, Banc Datblygu Cymru a phartneriaid busnes eraill ledled y rhanbarth i sicrhau rhai cyflawniadau gwirioneddol yn yr ardal hon.

Lansiwyd y digwyddiad "PitchItCymoedd" yn gynharach eleni y gwnaeth 43 o entrepreneuriaid yn y cymoedd gais i gymryd rhan ynddo. Gwahoddwyd 15 o ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno eu syniad busnes gerbron panel o feirniaid. Dewiswyd chwe entrepreneur i fynd drwodd i'r rownd derfynol i'w chynnal ym mis Tachwedd ac maent yn gweithio gyda mentoriaid cyn y rownd derfynol lle bydd pob entrepreneur yn cyflwyno cynnig i gael hyd at £75,000 o fuddsoddiad ecwiti fesul busnes. Roedd un busnes wedi creu argraff mor ffafriol ar y beirniaid yn y rownd gynnar y cawsant sgwrs ynglŷn â buddsoddi yn syth ar ôl y digwyddiad. Mae hon yn enghraifft wirioneddol o'r dalent a'r sgiliau sy'n cael eu meithrin yn nhrefi ein Cymoedd.

O ganlyniad i weithdy ar entrepreneuriaeth a gynhaliwyd ym mis Ebrill, aeth y tasglu ati i weithio gyda Hefin David AC, Busnes Cymru a phartneriaid eraill i dreialu Cymhorthfa Fusnes Leol ym Margoed ym mis Mehefin. Mae pob un o ACau y Cymoedd wedi cael cynnig i gydweithio â'r tasglu i gyflwyno model tebyg yn eu hardaloedd. Bydd y cymorthfeydd yn cynnig cyfle i ymgysylltu ag entrepreneuriaid a busnesau a rhoi cyngor a chymorth iddynt yn lleol.

Mae Rhwydwaith Cymar i Gymar wedi cael ei sefydlu er mwyn dod â grŵp o sylfaenwyr busnesau yn y cymoedd ynghyd. Nod y prosiect peilot hwn yw cefnogi sylfaenwyr i wella eu sgiliau penderfynu unigol drwy weithio mewn amgylchedd grŵp dibynadwy ar heriau i dwf busnesau yn y byd go iawn. Bydd arweinydd busnes profiadol yn hwyluso'r grŵp cymheiriaid ac yn cefnogi'r garfan hon drwy gydol y prosiect peilot. Caiff yr hyn a ddysgir drwy'r prosiect peilot ei gofnodi a'i ddefnyddio i lywio cymorth yn y dyfodol.

Gan weithio gyda phartneriaid yn ICE Cymru yng Nghaerffili, mae canolfan fenter y cymoedd yn darparu lle i entrepreneuriaid a busnesau gydweithio ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgymorth i hyrwyddo entrepreneuriaeth yng nghymunedau ym mhob rhan o'r Cymoedd. Mae hyn yn cysylltu'n ddi-dor â Busnes Cymru a Syniadau Mawr Cymru i hyrwyddo entrepreneuriaeth a helpu i greu busnesau newydd yn y cymoedd ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, ysgolion, colegau a Phrifysgolions.


CREU SBARC
BE THE SPARK

# Trafnidiaeth

Yn ystod rownd gyntaf gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd Tasglu'r Cymoedd yn 2017, trafnidiaeth gyhoeddus reolaidd a dibynadwy oedd y mater pwysicaf oll i gymunedau'r cymoedd.

Rydym yn gwybod y gall trafnidiaeth wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Mae trafnidiaeth yn sail i fynediad at wasanaethau beunyddiol, gan ein helpu i gyrraedd y gwaith, mynd i apwyntiadau iechyd pwysig a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.

Dyma pam ein bod wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol a sefydliadau partner eraill i ystyried atebion i rai o'r rhwystrau y mae cymunedau yn eu hwynebu.

Rydym wedi gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i dreialu trafnidiaeth hyblyg yn ardal Tasglu'r Cymoedd, fel rhan o'r gweithgarwch peilot i brofi dulliau newydd o gefnogi cyflogaeth yn y Cymoedd. Lansiwyd y prosiect peilot 'O'r Cymoedd i'r Gwaith' ym mis Mai, sy'n darparu opsiwn trafnidiaeth hyblyg i alluogi pobl i gyrraedd y gwaith. Mae'n rhoi'r cyfle i bobl dderbyn swydd y tu allan i'w hardal leol, ac yn cydweddu ag oriau gwaith angenrheidiol cyflogwyr.

Mae'r bysiau – a gyflenwir gan y cwmni Village and Valleys Transport – yn gwasanaethu cymunedau Maerdy, Glynrhedynog, Blaenllechau, Tylorstown a Phontygwaith, a'r ardaloedd cyfagos. Yna maent yn mynd yn eu blaen i ardaloedd Caerdydd, Trefforest, Nantgarw, Pontyclun a Llantrisant.



Mae'r cynllun peilot hwn wedi rhoi'r cyfle i ni ystyried sut y gall cymunedau a chyflogwyr gydweithio i greu opsiynau trafnidiaeth pwrpasol, hyblyg sy'n canolbwyntio ar waith er mwyn ategu trafnidiaeth gyhoeddus reolaidd. Rydym eisoes yn gweld tystiolaeth bod cyflwyno dulliau teithio sy'n ymateb i'r galw yn hwyluso potensial ar gyfer cyflogaeth yn economi Cymru a fyddai fel arall yn cael ei golli.

Rydym wrthi'n datblygu cynlluniau peilot ar gyfer trafnidiaeth gymunedol sy'n ymateb i'r galw mewn ardaloedd eraill o'r cymoedd. Rydym yn gobeithio, os bydd y math hwn o fodel trafnidiaeth gyhoeddus yn llwyddo, y gellir ei gyflwyno lle mae opsiynau trafnidiaeth yn annibynadwy.

I gefnogi'r gwaith hwn, rydym yn ymweld â Merthyr, Castell-nedd, Bargoed, Tondu, Glynebwy, Aberdâr a Phontypridd gyda Trafnidiaeth Cymru er mwyn trafod materion trafnidiaeth lleol yn fanylach ac ystyried atebion mewn partneriaeth â chymunedau.



# Hybiau Strategol

Mae saith ardal Hyb Strategol a gafodd eu dynodi gan Dasglu'r Cymoedd – Glynebwy; Merthyr Tudful; Pontypridd/Ffynnon Taf; Cwmbrân; Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr; Castell-nedd; Caerffili/Ystrad Mynach.

Mae awdurdodau lleol ym mhob un o ardaloedd hybiau strategol Tasglu'r Cymoedd wedi bod yn datblygu amrywiaeth o brosiectau â blaenoriaeth ac mae gan bob un ohonynt wahanol becynnau ariannu, modelau cyflawni ac amserlenni y mae'r tasglu'n gweithio'n agos gyda nhw arnynt. Mae'r mwyafrif o'r prosiectau eisoes wedi sicrhau sawl ffynhonnell ariannu (gan gynnwys arian cyfatebol gan awdurdodau lleol) a chânt eu cyflawni drwy ddull partneriaeth â'r sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Yn Atodiad 1, mae adroddiad yn manylu ar y prosiectau allweddol sy'n cael eu datblygu yn ardal pob Hyb Strategol.

Mabwysiadir dull thematig o wario'r £25 miliwn a ddyrannwyd i'r hybiau Strategol yn wreiddiol. Bydd hyn yn sicrhau y defnyddir y £25 miliwn i gynyddu ac ehangu prosiectau a mentrau o ansawdd da a gynllunnir yn y Cymoedd yn unol ag uchelgeisiau'r tasglu, yn hytrach na chynnig o'r brig i'r gwaelod i gronfa na fyddai'n para'n hir drwy ei rhannu ymysg y saith hyb.

Drwy'r gwaith parhaus gyda'r awdurdodau lleol ar yr Hybiau Strategol, mae £600k o gyllid refeniw ychwanegol wedi cael ei ddarparu i Gaerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf er mwyn comisiynu Uwchgynlluniau Strategol ar gyfer Caerffili, Merthyr Tudful a Phontypridd yn y drefn honno sy'n ymgorffori opsiynau trafnidiaeth integredig uchelgeisiol. Bydd y dyluniadau'n ystyried yr uchelgeisiau adfywio ehangach ar gyfer yr ardaloedd gan ddarparu uwchgynllun a rhaglen fuddsoddi gychwynnol, a galluogi awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â'r camau nesaf, sef adfywio ffisegol a chreu lleoedd.

Ochr yn ochr â'r gwaith ar ddatblygu Hybiau Strategol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y byd academaidd a Bargen Ddinesig Caerdydd i ddatblygu cynigion ar gyfer manteisio i'r eithaf ar yr A465 a datblygu blaenau'r cymoedd i fod yn goridor twf.

Mae'r A465, neu ffordd Blaenau'r Cymoedd, yn un o'r cysylltiadau strategol allweddol rhwng dwyrain a gorllewin Cymru. Mae'n rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd ac yn borth rhyngwladol i economi De Cymru. Mae'r gwelliannau a wneir i'r ffordd yn hollbwysig i'r broses o adfywio ardal Blaenau'r Cymoedd yn gymdeithasol ac yn economaidd a fydd, pan fyddant wedi'u cwblhau, yn darparu ffordd ddeuol barhaus o'r M4 ar hyd yr A465 i Ganolbarth Lloegr a'r tu hwnt.

Yn dilyn y gwaith a wnaed gan Brifysgol De Cymru y llynedd, mae Tasglu'r Cymoedd wedi dod â grŵp o randdeiliaid allweddol ynghyd o bob rhan o'r Cymoedd sydd wrthi'n asesu sut y gellir datblygu'r gwaith hwn ymhellach.



# Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd


Y bwriad i'r tasglu bob amser oedd sicrhau y byddai'r Cymoedd yn cael eu defnyddio fel cyfrwng i brofi syniadau blaengar, arloesol a allai gael eu cyflwyno ledled Cymru, lle y bo'n briodol.

Mae aelodau'r tasglu wedi bod yn ystyried sut y gallant wella'r canlyniadau i bobl ifanc yng nghymunedau ein Cymoedd, cynyddu eu huchelgeisiau a hyrwyddo entrepreneuriaeth. Maent yn gweithio gyda grŵp o entrepreneuriaid, busnesau bach ac ysgolion uwchradd i ddatblygu cyfres o gynlluniau a fydd yn helpu pobl ifanc i gael gafael ar fodelau rôl lleol ac alumni o'u hardaloedd – er mwyn agor llwybrau gyrfa na fyddent wedi bod yn ymwybodol ohonynt o bosibl neu nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad atynt.

Maent hefyd yn gweithio gyda darparwyr presennol cynlluniau tebyg er mwyn deall yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio a pham. Y nod yw y bydd pob disgybl uwchradd o ysgolion ym mhob rhan o'r Cymoedd yn gallu cael gafael ar gyngor, cymorth a chyfleoedd gyrfa er mwyn ffynnu yn eu dewis sector neu lwybr gyrfa.



# Parc Rhanbarthol y Cymoedd




Mae'r tasglu wedi ymrwymo i sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd, erbyn 2021, er mwyn helpu cymunedau lleol i ddathlu'r adnoddau naturiol a'r dreftadaeth a gwneud y defnydd mwyaf ohonynt.

Mae gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd dair thema gyflawni gydgysylltiedig: tirwedd, diwylliant a hunaniaeth; hamdden a llesiant; cymunedau a menter. Cyhoeddwyd prosbectws Parc Rhanbarthol y Cymoedd ym mis Hydref 2018. Fe'i datblygwyd drwy waith ymgysylltu helaeth â chymunedau'r Cymoedd a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pob awdurdod lleol yn y Cymoedd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd gefnogaeth eang.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol yn y Cymoedd i drefnu digwyddiad 'Ein Parc Rhanbarthol y Cymoedd' ym mis Chwefror 2019, gan ddod â grwpiau ynghyd o bob rhan o'r Cymoedd i rannu arfer gorau wrth ystyried cyfleoedd i wirfoddoli, creu modelau mentrau cymdeithasol ac ystyried cynaliadwyedd Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Daeth 85 o aelodau o grwpiau cymunedol llawr gwlad o bob rhan o'r Cymoedd i'r digwyddiad hwn mewn lleoliad marchnad a anogodd grwpiau i rannu eu prosiectau ac a gynigiodd gyfleoedd rhwydweithio i gefnogi gwaith cymar i gymar.

Mae Pyrth Darganfod mewn 11 o safleoedd wedi cael eu cymeradwyo ac mae cyllid wedi cael ei ddyfarnu drwy gronfa gyfalaf gwerth £7m Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Defnyddir yr arian hwn i fanteisio i'r eithaf ar botensial asedau naturiol a diwylliannol yr ardal.

Rhestrir y safleoedd isod ac yn ogystal â dod yn gyrchfannau yn eu rhinwedd eu hunain, byddant yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y dirwedd odidog ac amrywiol sydd gennym ledled y Cymoedd:

- **Amgueddfa Mwyngloddio Cefn Coed yng Nghastell-nedd Port Talbot**
- **Parc Penallta yng Nghaerffili**
- **Parc Gwledig Cwm Dâr**
- **Parc Gwledig Bryngarwk**
- **Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon**
- **Parc Cyfarthfa**
- **Cwmcarn Forest Drive**
- **Castell Caerffili**
- **Parc Brynbach**
- **Parc Slip**
- **Parc Coffa Ynysangharad**




Bydd y strwythur llywodraethu yn dysgu o'r dull partneriaeth rhanbarthol a ddatblygwyd drwy'r Bargeinion Dinesig. Bydd hyn yn gweithredu drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr awdurdodau lleol o fewn Rhanbarth y Brifddinas, yn ogystal â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Gâr. Bydd arweinwyr yr awdurdodau lleol yn ffurfio Bwrdd Llywodraethu gyda fforwm yn cael ei sefydlu a fydd yn cynnwys swyddogion awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys rhanddeiliaid o'r bwrdd iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector, a rhanddeiliaid cymunedol. Byddant yn goruchwylio'r broses o weithredu Parc Rhanbarthol y Cymoedd o ddydd i ddydd.

Bydd tîm newydd cymunedol a ariennir drwy £1 miliwn gan Dasglu'r Cymoedd yn gweithio ym mhob rhan o'r rhanbarth gan ganolbwyntio ar gefnogi'r broses o ddatblygu'r tair thema. Bydd y tîm cyfathrebu allanol yn datblygu dull partneriaeth gyda'r nod o gysylltu cymunedau (ac yn wir ymwelwyr) yn well â'u hasedau treftadaeth naturiol a diwylliannol, drwy weithgareddau addysgol, sgiliau a llesiant. Bydd hyn yn helpu pobl yn y Cymoedd i elwa'n gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd ac yn helpu i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol.



# Aelodaeth Tasglu Gweinidogol y Cymoedd

**Er mwyn sicrhau bod y tasglu yn adlewyrchu'r ffocws newydd hwn, mae'r aelodaeth wedi cael ei hadolygu. Bydd aelodau'r tasglu hefyd yn cadeirio is-grwpiau penodol a fydd yn canolbwyntio ar y saith blaenoriaeth.**

Aelodau'r tasglu yw:

- **Kellie Beirne**
  Prif Weithredwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- **Dawn Bowden**
  Aelod Cynulliad Llafur Cymru, Merthyr Tudful a Rhymni
- **James Davies**
  Cadeirydd Gweithredol, Diwydiant Cymru
- **Josh Miles**
  Rheolwr Polisi, y Ffederasiwn Busnesau Bach
- **Andrew Morgan**
  Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf
- **Wendy Walters**
  Prif Weithredwr, Cyngor Sir Gâr.

# Atodiad: Prosiectau Allweddol yr Hybiau Strategol

**Ceir isod grynodeb byr o rai o'r prosiectau allweddol y mae'r cynghorau yn eu gweithredu yn yr Hybiau Strategol a nodir.**

## Pontypridd

**Uwchgynllun Canol Tref Pontypridd** – Mae gwaith yn prysur fynd rhagddo i lunio uwchgynllun newydd ar gyfer canol tref Pontypridd, sy'n cael ei gefnogi'n ariannol gan Dasglu'r Cymoedd (£200,000). Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i lunio'r cynllun, gyda chyngor gan Mott McDonald, The Urbanists ac Alder King. Dylai'r cynllun drafft fod yn barod erbyn mis Hydref, a bydd yn darparu fframwaith pwysig ar gyfer manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sylweddol y mae Pontypridd yn eu cynnig ar hyn o bryd o ran twf a buddsoddiad, ac yn adeiladu ar y buddsoddiad yn y Metro.

Bydd hefyd yn canolbwyntio ar gyflwyno prosiectau buddsoddi allweddol yn rhannau penodol o'r dref, gan gynnwys ailddatblygu'r hen Neuadd Bingo ac adeilad Angharad, hen safle Marks and Spencer, maes parcio Heol Sardis, Marchnad Pontypridd a hefyd adeilad YMCA Pontypridd. Bydd hyn yn adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan y buddsoddiad sydd eisoes ar waith a'r hyn sydd ar fin dechrau.

**Gwaith ailddatblygu Bro Taf – Llys Cadwyn** – Bydd y prosiect hwn yn trawsnewid porth gogleddol y dref drwy ddarparu 14,000 troedfedd sgwâr o ofod masnachol newydd mewn tri adeilad allweddol. Caiff ei arwain gan y Cyngor gyda buddsoddiad gwerth £48 miliwn, ynghyd â £10 miliwn gan fenter 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol' Llywodraeth Cymru. Bydd yn cynnwys dau adeilad ar gyfer swyddfeydd gydag unedau masnachol ar y llawr gwaelod a thrydydd adeilad o'r radd flaenaf, a fydd yn cael ei redeg gan y Cyngor, lle ceir llyfrgell a champfa iechyd a ffitrwydd. Bydd y datblygiad yn darparu 1,000 o swyddi newydd yn y dref; bydd Trafnidiaeth Cymru'n meddiannu'r adeilad mwyaf a bennwyd ar gyfer swyddfeydd ac mae'r galw am y lle sy'n weddill yn gadarnhaol iawn.

Disgwylir i'r rhaglen adeiladu gael ei chwblhau yng ngwanwyn 2020 ac i'r adeiladau gael eu meddiannu yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Fel rhan o'r gwaith adeiladu, mae'r contractiwr yn gweithredu rhaglen budd cymunedol helaeth a llwyddiannus sy'n cynnwys mwy na 1,900 wythnos o hyfforddiant hyd yma ar gyfer prentisiaid, hyfforddeion, ymgeiswyr am leoliadau gwaith a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant; gwaith gyda mwy na 1,800 o ddisgyblion mewn ysgolion lleol drwy chwe gweithgaredd STEM; ac ail-fuddsoddi £1.2 miliwn yn ôl yn y gymuned fel rhan o gynllun gwerth cymdeithasol.

**Llys Cadwyn: Pont Droed Parc Ynysangharad** – Bydd y cyfleuster newydd hwn yn gwella'n sylweddol y cysylltiad rhwng canol y dref a'r Parc ac yn eu gwneud yn haws i gerddwyr a beicwyr groesi rhyngddynt. Bydd hefyd yn fodd i ymwelwyr, gweithwyr a phobl leol ddefnyddio'r Parc a chanol y dref mewn ffordd integredig a gwneud y mwyaf ohonynt. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y bont droed, gyda buddsoddiad o £2 filiwn a chymorth o £822,000 drwy'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio. Mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo a bydd yn digwydd ar y cyd â rhaglen adeiladu Llys Cadwyn.

**Rhaglen Buddsoddi mewn Eiddo Pontypridd** – Mae'r rhaglen hon ar waith a bydd ar gael tan fis Ebrill 2021. Mae'n cynnig cymorth grant i berchenogion eiddo a busnes a datblygwyr ar gyfer buddsoddiadau sy'n gwella adeiladau yng nghanol tref Pontypridd.

Mae'n cynnwys dwy elfen:

> Bydd y Gronfa Gwella Eiddo Canol Trefi yn helpu i wella eiddo masnachol yn ffisegol er mwyn gwella eu cyflwr a'u hymddangosiad, yn enwedig lle mae eiddo ac arwynebedd llawr gwag yn cael eu hadfer i'w defnyddio unwaith eto.
>
> Bydd y Gronfa Byw mewn Canol Trefi yn helpu i wella adeiladau'n ffisegol at ddibenion preswyl, yn enwedig lle caiff gofod a danddefnyddir mewn adeiladau gwag ac uwchben unedau masnachol yn cael eu defnyddio i greu cartrefi newydd.

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan £1 miliwn o'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a disgwylir iddi ddenu buddsoddiad pellach o £500,000 o'r sector preifat. Dylai hyn gyflawni'r amcanion, sy'n cynnwys creu 55 o swyddi a lle ar eu cyfer, creu lle i 5 busnes newydd, a gwella 1,000 metr sgwâr o ofod masnachol.

**Parc Ynysangharad** – Mae'r Parc wedi'i ddynodi'n llwyddiannus yn Borth Darganfod fel rhan o fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu'r Parc fel cyrchfan allweddol ar gyfer ymwelwyr â'r Cymoedd ac yn helpu ymwelwyr i fanteisio ar atyniadau eraill yn yr ardal oherwydd eu bod yn hawdd eu cyrraedd drwy gludiant cyhoeddus ac i gerddwyr a beicwyr.

Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd grant o £300,000 gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn helpu i wella mynediad i ymwelwyr a'r cyfleusterau yn y Parc. Mae hyn yn rhan o becyn ehangach o welliannau i'r Parc er mwyn gwella ei enw da fel atyniad rhanbarthol i ymwelwyr, sydd wedi cael arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

## Merthyr Tudful

**Gorsaf fysiau** – Yng ngwanwyn 2019, llwyddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i sicrhau £10 miliwn ar gyfer y prosiect i adeiladu gorsaf fysiau ym Merthyr Tudful. Roedd y dyfarniad hwn dros ddwy flynedd – £3.6 miliwn yn 2019/20 a dyraniad pellach o £6.5 miliwn yn 2020/21. Daeth yr arian o Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru.

Morgan Sindall yw'r contractiwr a benodwyd i adeiladu'r orsaf newydd, sydd â hanes llwyddiannus o gyflawni prosiectau adfywio cymhleth. Mae hyn yn newyddion da i Ferthyr. Cynlluniwyd y prosiect ar y cyd ag Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Cyngor, a bydd gwasanaethau proffesiynol Capita yn cael eu defnyddio i reoli'r contract adeiladu. Dechreuodd y gwaith o adeiladu'r orsaf fysiau newydd ar 15 Gorffennaf a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn hydref 2020. Bydd yr orsaf fysiau wedi'i lleoli ar safle'r hen orsaf heddlu ar Stryd Swan. Bydd yn agosach at orsaf reilffordd y dref gan greu cyfnewidfa fodern o ansawdd uchel ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hefyd yn golygu y bydd modd ystyried cyfleoedd newydd a chyffrous i ddatblygu safle'r orsaf fysiau bresennol.

**Uwchgynllun Canol Tref Merthyr Tudful** – Mae gwaith yn prysur fynd rhagddo i lunio uwchgynllun newydd ar gyfer canol tref Merthyr Tudful, sy'n cael ei gefnogi'n ariannol gan Dasglu'r Cymoedd (£200,000). Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i lunio'r cynllun, gyda chyngor gan Mott McDonald, The Urbanists ac Alder King. Dylai'r cynllun newydd fod yn barod ym mis Hydref a bydd yn sicrhau bod y buddsoddiadau newydd yn y cyfleusterau bws a rheilffordd yn creu canolfan drafnidiaeth integredig fel rhan o gyfnod newydd o waith adfywio ar gyfer canol tref Merthyr Tudful a'r cymunedau o'i chwmpas.

**Parc Cyfarthfa** – Mae'r Parc wedi'i ddynodi'n llwyddiannus yn Barth Darganfod fel rhan o fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Nodwyd yn y cynnig gynllun i ddatblygu cyfleusterau bwyd ac arlwyo ar gyfer ymwelwyr a chanolfan ar gyfer gweithgareddau cymunedol.

## Caerffili

**Parc Busnes Caerffili/ICE** – Ers agor yn 2012, mae Welsh ICE wedi datblygu'n gyflym i'r gymuned fwyaf yng Nghymru o fusnesau sy'n cydweithio, busnesau newydd a microfusnesau, sy'n cefnogi dros 300 o fusnesau i ddatblygu a thyfu. Mae'n gartref i 350 o entrepreneuriaid ar hyn o bryd. Mae gan Welsh ICE gynllun busnes 10 mlynedd i dyfu eu cymuned. Dyma gyfle pwysig i ddatblygu busnesau yng nghanol tref Caerffili. Ceir sawl rhan i'r prosiect, sy'n cynnwys lleoliadau hyblyg ar gyfer busnesau ac unedau cyflogi (lle ar gyfer swyddfeydd a gweithdai).

Mae'r Hyb hefyd wedi darparu rhaglenni allgymorth (gan gynnwys Clybiau Busnes 5-9) yng Glynebwy a Merthyr Tudful, sef dau o ardaloedd yr Hyb Strategol.

**Uwchgynllun Canol Tref Caerffili** – Mae cyfnewidfa drafnidiaeth isranbarthol yng Nghaerffili yn elfen hanfodol ar gyfer bywiogrwydd y dref gyfan yn yr hirdymor a'i gallu i gystadlu. Mae gwaith yn prysur fynd rhagddo i lunio uwchgynllun ar gyfer canol trefn Caerffili sy'n cael ei gefnogi'n ariannol gan Dasglu'r Cymoedd (£200,000). Mae'r Cyngor yn gweitho'n agos â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i lunio'r cynllun, gyda chyngor gan Mott McDonald, The Urbanists ac Alder King. Dylai'r cynllun drafft fod yn barod erbyn mis Hydref a bydd yn sicrhau bod modd ailddatblygu'r orsaf fysiau/rheilffordd i greu canolfan drafnidiaeth allweddol ac yn ysgogi'r economi leol drwy ddarparu gofod masnachol a manwerthu (a phreswyl o bosibl).

Mae'r Cyngor wedi nodi canol tref Caerffili yn ganolbwynt ar gyfer y rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio – caiff eiddo gwag neu eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol ac sydd wedi'u lleoli o amgylch y castell neu mewn lleoedd amlwg yng nghanol y dref, eu blaenoriaethu. Bwriedir gwario £1 miliwn i wella'r ardal hon dros y ddwy flynedd nesaf.

**Castell Caerffili** – Mae Cadw'n bwriadu buddsoddi hyd at £5 miliwn yng Nghastell Caerffili er mwyn ei drawsnewid yn atyniad Haen Un i dwristiaid. Mae ymgynghorwyr ARAD wedi llunio uwchgynllun terfynol ar gyfer CADW sy'n nodi nifer o brosiectau y gellir eu gweithredu ar ôl lansio dau o atyniadau newydd, sef Dragon's Lair a Gilbert's Maze.

**Parc Penallta** – Mae'r Parc wedi'i dynodi'n llwyddiannus yn Borth Darganfod fel rhan o fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael cyllid ar gyfer canolfan ymwelwyr amlbwrpas a fydd hefyd yn ganolfan gymunedol ar gyfer trigolion, sy'n cynnwys cyfleusterau addysg a dehongli (ffisegol a digidol), canolfan gynadledda a chaffi ynghyd â chanolfan iechyd, toiledau a chawodydd. Caiff hyn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2021.

**Tŷ Du – menter ar y cyd â Llywodraeth Cymru** – Yr uwchgynllun ar gyfer y safle, sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio, yw datblygiad trefol mawr at ddibenion cymysg sy'n cynnwys darpariaeth breswyl o hyd at 200 o anheddau a 3.8 hectar (tua 6,300 metr sgwâr) o unedau cyflogaeth, ynghyd â'r seilwaith ffisegol cysylltiedig sy'n cynnwys llwybrau mynediad, draeniau, man agored i'r cyhoedd, mannau cyhoeddus o ansawdd uchel a thirlunio.

**Parc Lansbury** – Nodwyd mai Parc Lansbury yw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Lluniwyd cynllun 'Deep Place' ar gyfer Parc Lansbury, sy'n archwilio'r heriau cymhleth sy'n gysylltiedig â gwrthdroi'r cylch o dlodi hirdymor ar yr ystâd. Mae'r cynllun yn nodi nifer o gamau gweithredu a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Mae'n bwysig mabwysiadu dull gweithredu o'r gwaelod i fyny ac ymgysylltu'n barhaus â'r gymuned, ac mae uwchgynllun drafft yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd gyda phob cymuned. Mae Cynllun Gwella Eiddo helaeth bron wedi'i gwblhau ar yr ystâd.

**Pwll Glo Penallta** – Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar y rhannau o safle Pwll Glo Penallta sydd heb eu datblygu, ac sydd eisoes wedi gweld gwaith adfywio ar ffurf ystad dai Cwm Calon a Pharc Penallta. Mae sawl elfen sydd eto i'w datblygu, gan gynnwys y Neuadd Bŵer a'r Baddondy. Mae'r hen lampdy wedi'i droi'n 6 fflat ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i droi stoc arall at ddefnydd preswyl. Mae cydsyniad wedi'i roi i droi'r Neuadd Bŵer yn ardal breswyl, ond mae'r perchennog newydd yn agored i'r syniad o wneud y llawr daear yn ardal fyw/gweithio neu'n ardal hyblyg i swyddfeydd. Mae'r Cyngor wedi penodi asiant eiddo masnachol Knight Frank i brofi'r farchnad er mwyn gweld a oes galw i'w defnyddio at ddibenion cyflogaeth.

## Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

**Neuadd Tref Maesteg** – Nod ailddatblygu Neuadd y Dref yw atgyweirio ac ailwampio'r adeilad rhestredig Gradd II eiconig 138 mlwydd oed, gan ddarparu cyfleusterau newydd modern ar gyfer y celfyddydau a diwylliant ar yr un pryd. Caiff y neuadd ei gweddnewid yn gyfleuster amlddefnydd a fydd yn darparu gofod i gymdeithasu, dysgu, cael gwybodaeth, gwella sgiliau, creu swyddi a dathlu'r dreftadaeth sylweddol y mae'r adeilad hwn yn ei chwmpasu.

Mae contract dylunio ac adeiladu wedi'i osod ar gyfer y prosiect hwn. Mae'r prif gontractwr, Knox and Wells Cyf, wrthi ar hyn o bryd yn cyflawni camau olaf gwaith dylunio technegol a chostio'r prosiect. Ar 6 Awst, cynhaliodd Knox and Wells ddigwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' yn neuadd y dref, a hysbysebwyd ar Gwerthwch i Gymru, er mwyn denu contractwyr a chyflenwyr i dendro am y gwaith arfaethedig. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Hydref a, chyn belled ag y bydd y Cyngor ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn cytuno ar y dyluniad a'r gost, byddwn mewn sefyllfa bryd hynny i ddyfarnu'r gwaith adeiladu i'r prif gontractwr. Disgwylir i'r gwaith gychwyn ym mis Tachwedd 2019 am 15 mis, gan ddod i ben yn y gwanwyn 2021.

Mae'r cymorth ariannol a ddarperir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys £858,000 o raglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, £2,001,990 o gyllid yr UE a £650,000 o Dasglu'r Cymoedd. Mae'r prosiect yn rhan o raglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gan ddarparu £54m dros chwe mlynedd i gaffael, ailwampio neu ailddatblygu adeiladau a thir yng nghanol trefi a dinasoedd neu'n agos at ganol trefi a dinasoedd ar draws y Gorllewin a'r Cymoedd. Rhagwelir y bydd y cyllid yn ysgogi buddsoddiad pellach o £54 miliwn o leiaf, gan roi hwb o £108 miliwn i gymunedau ledled Cymru.

**Rhwydwaith Gwres Caerau** – Mae Challoch Energy wedi cwblhau model technegol-economaidd ar gyfer y prosiect, ac mae'r Awdurdod Glo wedi cwblhau adolygiad o gofnodion gwaith cloddio yn yr ardal, gan awgrymu ardaloedd drilio posibl i echdynnu a chreu tyllau turio ar gyfer y prosiect. Mae Pinsent Masons wedi cwblhau adroddiad lefel uchel sy'n ystyried strwythurau gweithredu posibl.

Disgwylir i dendr gael ei gyhoeddi yn fuan er mwyn penodi ymgynghorydd i baratoi achos busnes amlinellol ar gyfer y prosiect, cwblhau ymchwiliad geo-dechnegol ynghylch hyd a lled adnodd dŵr y pwll glo, a datblygu a rheoli'r strategaeth gaffael a'r broses o benodi contractwr ar gyfer y prosiect.

**Parc Bryngarw** – Mae'r Parc wedi'i ddynodi'n Borth Darganfod fel rhan o fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae'r cynnig yn darparu ystod eang o brosiectau, gan gynnwys datblygu canolfan addysg newydd; hwyluso mynediad a darparu gwybodaeth; cyfleusterau i hyrwyddo teithio llesol; a datblygu bioamrywiaeth o fewn y parc gan gynnwys plannu coed a chreu llyn i fywyd gwyllt.

**Parc Slip** – Mae'r Parc wedi'i ddynodi'n Borth Darganfod fel rhan o fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn ogystal â chysylltiadau cymunedol, gweithgareddau lles ac addysg. Mae'n nodi'r cyfleoedd i weithio gyda Pharc Gwledig Bryngarw fel porth cyfun i Gymoedd Ogwr a Llynfi, gan weithredu i'r eithaf y cysyniad o Borth Darganfod. Mae'r syniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chreu cysylltiadau yn rhai cryf, yn ogystal â darparu pwyntiau gwefru i gerbydau ac ardaloedd ychwanegol i gadw beiciau.

## Cwmbrân

**Sbringfwrdd 2** – Cafwyd cydsyniad cynllunio cyffredinol ar gyfer ailddatblygu safle strategol ar ymylon canol y dref. Mae cam cyntaf y gwaith ailddatblygu wedi hen ddechrau bellach, ac mae'r fframwaith dur ar gyfer Parth Dysgu Torfaen wedi'i godi. Mae cynllun busnes drafft wedi'i lunio ar gyfer yr ail gam – Sbringfwrdd 2 – a gaiff ei gyflwyno i'w ystyried yn yr hydref 2019. Mae prosbectws bras yn cael ei baratoi yn barod ar gyfer Ionawr 2020 er mwyn amlinellu'r cyfleoedd i'r sectorau cyhoeddus a phreifat fuddsoddi ar safleoedd cyflogaeth o fewn yr hyb.

**Hyb Trafnidiaeth Integredig** – Sicrhawyd cyllid ar gyfer camau olaf y gwaith i gynllunio gwelliannau i'r system Parcio a Theithio yng ngorsaf Pont-y-pŵl/New Inn ac ar gyfer y gwaith o asesu pa mor ymarferol yw creu maes parcio aml-lawr yng Ngorsaf Reilffordd Cwmbrân.

**Datblygu Parc Iechyd** – Mae partneriaeth allweddol sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Torfaen, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru a'r Hyb Gwyddorau Bywyd yn llywio'r gwaith o lunio Achos Amlinellol Strategol dros Barc Meddygol Ysbyty Athrofaol y Grange y disgwylir ei gwblhau ym mis Medi 2019.

**Cymorth Busnes ac Entrepreneuriaeth** – Comisiynodd y Cyngor ysgol fusnes dros dro i gynnal sesiynau i ddarpar-entrepreneuriaid o fewn ardal yr Hyb Strategol. Cafwyd ymateb da a chofrestrodd 105 o bobl; llwyddodd 28% o fusnesau i werthu rhywbeth cyn diwedd y sesiynau; ac roedd 64% o'r bobl a oedd yno yn newydd i'r byd busnes.

## Castell-nedd

**Safle Strategol Crown Packaging** – Mae'r prosiect yn cynnwys caffael ac ailddatblygu'r ardal fel safle cyflogaeth strategol. Llwyddwyd i gaffael y safle ym mis Mawrth 2019 a disgwylir i'r gwaith adeiladu gychwyn ym mis Hydref 2019. Cyflwynwyd cynlluniau i'r Cyngor hefyd gan brif gyflogwr y safle ar gyfer codi Boelerdy Biomas ar y safle, a fydd yn cefnogi gofynion ynni cynaliadwy.

**Ailddatblygu Llys Sirol** – Mae'r prosiect wedi'i gwblhau bellach, hy caffael ac addasu'r hen Lys Sirol i wneud lle i wyth deg o staff y Cyngor yng nghanol y dref.

**Hyb Trafnidiaeth Integredig** – Mae Network Rail, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru eisoes yn cyfrannu at y prosiect a chaiff ei gyllido o sawl ffynhonnell, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot. Bydd y prosiect yn darparu safle bysus newydd, ardal dacsis, a chysylltiadau i feicwyr a cherddwyr.

**Adnewyddu Canol Tref** – Ailwampio 8 Wind Street i ddarparu ardal o safon uchel i swyddfeydd er mwyn hwyluso cyfleoedd deor a thwf busnesau, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol. Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo a cheisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno. Disgwylir i'r prosiect gychwyn ym mis Tachwedd 2019. Ddechrau 2020/21 bydd cynllun ailddatblygu arall yn cychwyn at ddefnydd cymysg – buddsoddiad hamdden mawr newydd ac ardal fanwerthu newydd er mwyn moderneiddio canol y dref, sicrhau cynaliadwyedd ac arallgyfeirio.

**Troi Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer** – Caiff achos busnes ar gyfer y rhaglen arloesol hon ei gyflwyno yn fuan er mwyn cael cyllid gan Raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.  Bydd yn darparu 50 o unedau tai carbon isel a fydd yn gwella perfformiad ynni, lleihau carbon a helpu i liniaru tlodi tanwydd.

## Glynebwy

**Canolfan Genedlaethol i Ecsbloetio Posibiliadau Digidol** – Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cwmni technoleg byd-eang Thales er mwyn sefydlu seibr-ganolfan werth £20m a fydd yn ganolog i raglen y Cymoedd Technoleg. Y Ganolfan hon fydd y cyfleuster ymchwil a datblygu cyntaf o'i fath yng Nghymru, a bydd yn lleoliad perffaith i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau brofi a datblygu eu cysyniadau digidol. Thales fydd yn rhedeg y Ganolfan yng Nglynebwy ar y cyd â Phrifysgol De Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a Thales wedi ymrwymo £10m bob un i'r prosiect, a disgwylir i hynny greu incwm sylweddol.

**Rhyd-y-Blew – Menter ar y cyd â Llywodraeth Cymru** – Cynigir datblygiad 50,000 o droedfeddi sgwâr – cafwyd cydsyniad cynllunio yn amodol ar ambell beth sy'n cael eu hystyried cyn dechrau ar y safle.

**Safle Datblygu De Bryn Serth** – Mae Lovell (mewn partneriaeth â Chartrefi Melin) ar y safle, ac mae'r gwaith wedi dechrau i adeiladu cymysgedd o gartrefi ar gyfer y farchnad agored (70) a chartrefi fforddiadwy (30), ac mae cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol a chontractau cadwyn gyflenwi wedi'u sicrhau fel rhan o'r datblygiad. Bydd yr unedau cyntaf yn barod cyn diwedd Rhagfyr 2019, ac mae'r lansiad diweddar yn ennyn cryn ddiddordeb gan ddarpar-brynwyr.

**Safle Datblygu Glynebwy (Ysgol a Choleg)** – Mae partneriaeth rhwng Persimmon a United Welsh i ddatblygu cyfanswm o 277 o gartrefi ar gyfer y farchnad agored a chartrefi fforddiadwy ar y safle yn symud yn ei blaen, mae'r negodi o ran prynu tir yn parhau a'r cais cynllunio ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno.

**Boxworks** – Bydd y prosiect hwn yn creu lle fforddiadwy i swyddfeydd ar safle'r Gweithfeydd yng Nglynebwy ar gyfer busnesau newydd a micro-fentrau sydd am weld twf. Bydd y prosiect yn darparu 21 o gynwysyddion môr a fydd yn addas ar gyfer busnesau. Os byddant yn llwyddiannus, gallent ehangu i'r unedau busnes sy'n cael eu datblygu ym Mharc Busnes Lime Avenue.

**Parc Busnes Lime Avenue** – Mae menter ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn cael ei datblygu i greu 8 uned ddiwydiannol er mwyn denu entrepreneuriaid sydd am ddatblygu busnesau gwerth uchel mewn sectorau allweddol.

**Safle Datblygu Northgate, y Gweithfeydd** – Cynhaliwyd proses dendro lwyddiannus ar gyfer y safle hwn, a dewiswyd cynigydd i ddatblygu 70 o unedau, gan gynnwys tai fforddiadwy. Mae'r datblygwr yn gobeithio dechrau gwaith ar y safle erbyn haf 2020.

**Safle Datblygu Glanffrwd Court/Glan-yr-Afon Court** – Dyfarnwyd contractau dymchwel ar y ddau safle ac i ddatblygu cartrefi newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy. Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ar safle Glanffrwd ym mis Chwefror 2020.